Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

(Cyfarfod at Wraidd y Mater ac Uwchgyfeirio)

Cofnodion

Microsoft Teams

4 Awst 2021

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol (Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb)
Lee Jones (LJ) **(CADEIRYDD)**	Prif Weithredwr
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol (Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth)
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Dirprwy Brif Gwnstabl
ACC Jenny Gilmer	Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Pennaeth Plismona Tiriogaethol
Y Prif Arolygydd Dave Gordon (DG)	Pennaeth Cyfiawnder Troseddol
Y Prif Uwch-arolygydd Joanna Maal (JM)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Yr Uwch-arolygydd Martyn Stone (MS)	Pennaeth Plismona Lleol a Sicrwydd
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Esboniodd y byddai'r cyfarfod yn gyfuniad o gyfarfod at wraidd y mater a chyfarfod uwchgyfeirio, ar ôl gorfod gohirio'r cyfarfod uwchgyfeirio diweddar.

2.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir. Penderfynwyd y dylid ymdrin â'r camau gweithredu a'r argymhellion y tu allan i'r cyfarfod.
3.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Casgliadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad ar Wraidd y Mater mewn perthynas ag Amddiffyn Plant	3.1 Cyflwynodd HJJ ei hadroddiad ar yr argymhellion yn dilyn yr ymchwiliad at wraidd y mater mewn perthynas ag amddiffyn plant yn y cyfarfod blaenorol. Cyfeiriodd HJJ at y tri argymhelliad yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i swyddogion gwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd yn gywir ac yn fanwl, codi ymwybyddiaeth yn fewnol o wasanaethau atgyfeirio ar gyfer dioddefwyr sy'n blant, ac argymhelliad i'r heddlu a thîm y Comisiynydd gydweithio i sicrhau gwaith parhaus i amddiffyn plant nawr ac yn y dyfodol, a sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer dioddefwyr sy'n blant yn cael eu llywio gan farn a phrofiadau dioddefwyr ac asiantaethau partner. Hefyd, gwnaeth HJJ atgoffa'r bwrdd o'r mewnbwn gan Barnardo's Cymru yn y cyfarfod lle gwnaeth cynrychiolydd fynegi rhai pryderon ynghylch y ffordd y mae'r heddlu yn cymhwyso polisi mewn perthynas â dioddefwyr achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Argymhellodd HJJ y dylai adran Diogelu'r Cyhoedd fynd i'r afael â'r materion hyn. 3.2 Gofynnodd CW i'r adborth a'r sylwadau llawn gan Barnardo's gael eu rhannu â'r heddlu. 3.3 Derbyniwyd yr argymhellion ac ategodd RB bwysigrwydd cydweithio â phartneriaid a thîm y Comisiynydd ar y materion a amlinellwyd. CAM GWEITHREDU: HJJ i rannu adborth â CW
4.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth sicrhau Diogelwch Cymunedol a Phlismona yn y Gymdogaeth.	4.1 Cyflwynodd HJJ adroddiad tîm y Comisiynydd ar ganfyddiadau'r ymchwil at wraidd y mater ynghylch rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth helpu i sicrhau diogelwch cymunedol a phlismona yn y gymdogaeth. Rhoddodd yr adroddiad gipolwg ar safbwyntiau Cynghorwyr lleol a barn Swyddogion Cymorth Cymunedol presennol yr heddlu. 4.2 Nododd HJJ y themâu allweddol a oedd yn deillio o'r safbwyntiau hyn. Gwnaeth cyfanswm o 43 o Gynghorwyr lleol ddarparu adborth ar gyfer yr ymchwil, ac ymatebodd 83 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i arolwg dienw ar-lein. 4.3 Nododd yr adroddiad fanylion adborth gan Gynghorwyr, gan gynnwys sylwadau cadarnhaol am eu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol a'u gweithgareddau rhagweithiol. Ystyriwyd eu bod yn gysylltiadau plismona pwysig yn y gymuned, ac roedd llawer yn canmol ymdrechion y Swyddogion i ddod â chymunedau ynghyd a datrys problemau lleol. Roedd rhai sylwadau yn awgrymu bod barn Cynghorwyr am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dibynnu'n fawr ar yr unigolion a neilltuwyd i'r ardal. Un enghraifft dda o hyn oedd lle soniodd Cynghorydd yn ardal Mayhill o Abertawe am y terfysgoedd diweddar yn yr ardal honno, a chyfeiriodd yn gadarnhaol at y buddsoddiad o'r newydd mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddog Cymdogaeth yn yr ardal o ganlyniad i hynny.

		4.4 Gofynnwyd i'r Cynghorwyr i ba raddau roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio yn unol â blaenoriaeth a gweledigaeth y Comisiynydd. Yn benodol, roedd hyn yn gofyn i ba raddau roeddent yn teimlo mai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oedd y cyfathrebwyr penodol ar gyfer plismona yn eu hardal leol, gan ymgysylltu â phreswylwyr a hyrwyddo ymdeimlad o bŵer i weithio'n uniongyrchol gyda chymunedau er mwyn datrys problemau. Er bod llawer yn teimlo bod hyn yn sicr yn digwydd, roedd ymatebion hefyd a oedd yn awgrymu bod rhwystrau a heriau a oedd yn atal y nod hwn rhag cael ei gyflawni'n llawn. Cyfeiriodd nifer o Gynghorwyr at y galw a osodwyd ar eu Swyddogion lleol ac roeddent am weld mwy o weithgarwch a mwy o adnoddau. Hyd yn oed pan oedd Cynghorwyr yn canmol y rhai yn eu hardal, roeddent yn eithaf tebygol o hyd o gyfeirio at yr angen am hyd yn oed mwy o bresenoldeb neu newid i batrymau sifft Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn ateb y galw gwirioneddol yn yr ardal leol. Cyfeiriodd sawl Cynghorydd at y diffyg pwerau sydd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn rhwystro Swyddogion rhag cyflawni'r rôl ac yn ei gwneud yn anodd, mewn rhai achosion, iddynt gael eu parchu gan bob aelod o'r gymuned. 4.5 Cafwyd rhai sylwadau yn ymwneud â newidiadau i'r ffordd y gellid cysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Ymddengys ei bod yn arfer bod yn haws cael gafael ar Swyddogion drwy rifau ffôn symudol personol, ond bod ymdrechion i gysylltu â nhw bellach yn cael eu cyfeirio drwy 101 neu ar-lein. Ymddengys fod hyn wedi creu rhywfaint o rwystredigaeth a bod yr ymdeimlad bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhan o gymunedau ac y gellir cael gafael arnynt yn hawdd wedi gwanhau o ganlyniad. Cyfeiriwyd hefyd mewn rhai safbwyntiau cyffredinol at y ffaith nad oedd yn hawdd ymgysylltu â Swyddogion mewn rhai ardaloedd. 4.6 Cyfeiriodd HJJ at yr adborth a ddarparwyd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ynghylch a oeddent yn cytuno mai prif ffocws eu rôl oedd gweithredu fel cyfathrebwr (gwrando ar bobl leol a siarad â nhw, datrys problemau a grymuso cymunedau). Roedd cyfanswm o 90% o'r Swyddogion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â hyn. Pan ofynnwyd iddynt a oedd rhwystrau i gyflawni'r rôl yn y ffordd a ddisgrifiwyd, roedd 71% yn cytuno bod rhwystrau ond roedd 29% yn teimlo nad oedd rhwystrau. 4.7 Nododd HJJ rai o'r ymatebion gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr heddlu mewn perthynas â'r rhwystrau a'r cyfyngiadau, a oedd yn cynnwys cael eu defnyddio ar gyfer dyletswyddau eraill (gan gynnwys cael tasgau gan swyddogion ymateb, cael eu defnyddio i warchod safleoedd ac ar gyfer ymholiadau ynghylch teledu cylch cyfyng). Cyfeiriodd llawer o Swyddogion at y diffyg pwerau a'r diffyg cyfarpar sydd ganddynt gan nodi bod hyn yn eu hatal rhag cyflawni eu rôl, e.e. diffyg cyfrifiaduron a cherbydau. 4.8 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys rhai awgrymiadau gan Gynghorwyr a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu am y ffordd y gellid cyfleu rôl benodol y Swyddogion yn well i gymunedau. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â chyfathrebu gwell ynghylch diben Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a'r manteision y gallent eu cynnig i gymunedau heb fod yn swyddogion yr heddlu. Roedd rhai awgrymiadau yn cynnwys 'Wythnos Ymwybyddiaeth o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu' neu 'Wythnos ym Mywyd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu' ar y cyfryngau cymdeithasol. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal ymgyrchoedd mewnol rheolaidd ar draws yr heddlu cyfan i atgyfnerthu'r neges ynghylch diben mewnol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

		4.9 Gorffennodd HJJ drwy grynhoi'r pwyntiau allweddol yn yr adroddiad. Roedd HJJ yn teimlo ei bod yn glir bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn uchel iawn eu parch ym marn Cynghorwyr lleol am y gwaith y maent yn ei wneud, yn enwedig mewn partneriaeth â nhw. Fodd bynnag, roedd pryderon nad oeddent bob amser yn cael eu defnyddio yn y ffordd a ragwelwyd yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd. Er bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cytuno mai dyma ddylai prif ddiben eu rôl fod, nid oedd llawer yn teimlo bod hyn yn digwydd, am resymau amrywiol. Ymddengys fod diffyg dealltwriaeth neu werthfawrogiad llawn o'r rôl o hyd, a hynny'n fewnol ac yn allanol, ac roedd yn glir bod angen cyfathrebu rhagweithiol mewn perthynas â hyn. 4.10 Diolchodd RB i HJJ am ei mewnbwn a chytunodd â'r cynnwys. Dywedodd RB fod yr heddlu wedi cael anawsterau o ran adnoddau a'i fod yn defnyddio plismona yn y gymdogaeth i gefnogi plismona ymateb. Dywedodd RB hefyd fod yr heddlu wedi gwneud gwaith i ystyried sut y byddai timau yn y gymdogaeth yn cael eu hailstrwythuro a'u hailddylunio. Nododd fod cynllun i recriwtio'r nifer gofynnol o staff erbyn diwedd y flwyddyn. 4.11 Awgrymodd JW y gellid rhoi strwythur ar waith lle roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn atebol i uwch-aelod o staff ac felly'n cael eu diogelu ganddo. Roedd yn teimlo y gallai hyn helpu gyda chydgysylltu ac eirioli mewn sefyllfaoedd pan fyddai pobl yn siarad yn amhriodol â'r Swyddogion neu'n eu camddefnyddio. 4.12 Trafododd JM y mater o gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a nodwyd yn yr adroddiad a gofynnodd pam roedd yr heddlu wedi penderfynu peidio â rhoi rhifau ffôn symudol Swyddogion i aelodau o'r cyhoedd. Ymddengys nad oedd pob swyddog yn y cyfarfod yn ymwybodol o'r penderfyniad hwn felly gwnaethant gytuno i ganfod sut y gwnaed y penderfyniad hwn ac a oedd opsiynau i wella prosesau cysylltu, gan gynnwys er mwyn sicrhau cysylltiad uniongyrchol gwell rhwng Cynghorwyr a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. **Cam Gweithredu: yr Heddlu i ganfod pryd y gwnaed y penderfyniad i gyfeirio pob ymgais i gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu drwy 101 a chanfod a ellid sefydlu dulliau cysylltu amgen neu roi cyhoeddusrwydd iddynt.**
5.	Cyflwyniad ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	5.1 Gwnaeth LJ wahodd MS i ymateb i'r canfyddiadau yn adroddiad tîm y Comisiynydd. Rhoddodd MS drosolwg o'r rhesymau dros ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu at ddibenion ymateb oherwydd bod staff yn cael eu tynnu o adrannau ac awgrymodd y gallai hyn fod wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau symud yn sgil COVID-19. 5.2 Nododd MS, yn dilyn yr adolygiad diweddar o blismona yn y gymdogaeth, fod pob Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac Arolygydd yn ymwybodol o ddiben y rôl a bod yr heddlu am ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater ynghylch tynnu staff o adrannau. Roedd yn teimlo bod y strwythur a nifer y swyddogion sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal ar draws yr heddlu yn ddigonol. Dywedodd MS, fel rhan o'r ymgyrch a gynlluniwyd i recriwtio mwy o swyddogion, trafodwyd amlygrwydd a hygyrchedd plismona yn y gymdogaeth yng nghyfarfodydd deufisol y Bwrdd Strategol Plismona Lleol, a gaiff ei gadeirio ganddo, ynghyd â gweithgareddau ymgysylltu a dargedir. Dywedodd y gellid uwchgyfeirio

		cyfraddau tynnu staff o adrannau a materion eraill i'r bwrdd drwy Reolwyr Unedau Rheoli Sylfaenol. 5.3 Nododd MS fod llawer yn defnyddio rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel man cychwyn i ddod yn Swyddog yr Heddlu a chytunwyd ei bod yn bwysig tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y rolau yn ystod ymgyrchoedd recriwtio.
6.	Trafodaeth am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	6.1 Cyfeiriodd JW at y mater o gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a nododd fod ei thîm yn cael cwynion yn aml gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch yr amseroedd aros am alwadau 101. Roedd yn teimlo na allai aelodau o'r cyhoedd rannu gwybodaeth na chynorthwyo'r heddlu gyda thensiynau neu broblemau cymunedol os na allent gysylltu, a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n rhwystredig ac yn ddi-rym. Holodd JW a ellid creu cyfrif e-bost lle gallai aelodau'r cyhoedd gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn hytrach na ffonio 101. Nododd RB fod y sefydliad yn wynebu galw digynsail oherwydd galwadau 101 a'i fod yn gweithio i reoli'r risg. 6.2 Cefnogodd HJJ ymholiad JW a gofynnodd a allai Cynghorwyr gael rhifau ffôn symudol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a/neu a ellid recordio neges ar eu ffonau symudol pan nad oeddent ar ddyletswydd er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am hyn a dweud wrthynt am ffonio 101 neu 999 mewn argyfwng. Gallai fod gofyniad i Swyddogion ddiffodd y swyddogaeth neges llais hefyd. Byddai hyn yn atal aelodau'r cyhoedd rhag teimlo'n rhwystredig pan na allent gael gafael ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu os nad oeddent ar gael ond byddai'n golygu y gellid cysylltu â nhw os oeddent ar gael ac ar ddyletswydd. 6.3 Cyfeiriodd HJJ at yr angen i gydnabod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hefyd gan nodi y gallent deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy pe bai'r heddlu yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddangos enghreifftiau o arferion da i'r cyhoedd a pha mor werthfawr y gallent fod yn eu rolau unigryw. Roedd yn teimlo y byddai mwy o gyfathrebu hefyd yn galluogi'r cyhoedd i ddeall rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a sut y gallent fod yn gysylltiad cadarnhaol yn y gymuned. 6.4 Cyfeiriodd JM at awgrym HJJ o recordio neges i roi gwybod pan na fydd Swyddogion yn gweithio ond rhannodd bryderon y gallai'r cyhoedd fod eisiau rhoi gwybod am bobl sy'n agored i niwed a throseddau y byddai angen rhoi sylw iddynt ar frys. Rhoddodd JM wybod i'r bwrdd fod rhestr KIN (Rhwydwaith Unigolion Allweddol) ym mhob sector a oedd yn cynnwys manylion diweddaraf aelodau allweddol o'r gymuned, megis Cynghorwyr a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Ychwanegodd RB y gallai rhoi'r gallu i gymuned gyfan gysylltu â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fynd â'i amser pe bai'n gorfod gwrando ar nifer o negeseuon llais yn ystod ei sifft. Roedd MS yn teimlo bod angen i'r heddlu fynd i'r afael â'r mater a gwella amser aros galwadau 101 cyn ystyried ffyrdd eraill o gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Ailadroddodd HJJ y gellid diffodd y swyddogaeth i adael neges llais ar ffonau symudol Swyddogion pan na fyddent ar gael, er mwyn lliniaru'r pryder ynghylch pobl agored i niwed yn cysylltu. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddent yn clywed neges yn rhoi gwybod iddynt fod angen ffonio 101 neu 999. 6.5 Roedd LA yn teimlo bod cyfathrebu uniongyrchol yn allweddol er mwyn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn cymunedau. Awgrymodd y gellid creu tudalen ar wefan yr heddlu lle gallai aelodau o'r cyhoedd adael neges a rhif ffôn cyswllt ar gyfer Swyddog

		Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu hardal, a gofyn iddo/iddi eu ffonio'n ôl neu anfon e-bost. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn galluogi aelodau'r cyhoedd i ddeall rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. 6.6 Cyfeiriodd SG at y cyhoeddiad diweddar gan y llywodraeth i ailgyflwyno cysylltiadau'r heddlu a enwir ym mhob ardal a holodd sut y byddai'r heddlu yn rheoli'r newid yn y galw. Nododd RB y byddai angen i'r heddlu ddefnyddio dull bygythiad, risg a niwed wrth benderfynu sut y byddai adnoddau'n cael eu dyrannu. 6.7 Cytunwyd y byddai'r holl faterion a godwyd yn cael eu hystyried ac y byddai rhai diweddariadau yn cael eu rhannu â thîm y Comisiynydd ynghylch sut y gellid ymdrin â rhai ohonynt. Nododd LJ y byddai'r pwnc hwn yn cael ei uwchgyfeirio i Fwrdd Strategol y Comisiynydd am ei fod yn bryder allweddol i'r Comisiynydd.
7.	Cyswllt Dilynol â Dioddefwyr	7.1 Gwnaeth JG wahodd DG i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am Gyswllt Dilynol â Dioddefwyr. Roedd tîm y Comisiynydd wedi gofyn am i'r eitem hon gael ei thrafod yng nghyfarfod y Bwrdd am fod y cyhoedd wedi mynegi nifer o weithiau fod diffyg cyswllt dilynol â dioddefwyr. Nododd HJJ ei fod yn flaenoriaeth bwysig i aelodau'r cyhoedd a ymatebodd i arolwg y Comisiynydd ar y gyllideb a blaenoriaethau ar ddiwedd 2020. 7.2 Cyfeiriodd DG at y ffordd y caiff cyswllt dilynol â dioddefwyr ei lywodraethu a nododd fod gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ffrwd waith ar wahân, a oedd wedi canolbwyntio ar agweddau amrywiol ar gyswllt dilynol â dioddefwyr. Nododd DG hefyd fod y Swyddfa Gartref wedi rhoi cyllid i'r Uned Gofal Tystion, a oedd yn cynorthwyo yng nghamau olaf y broses cyswllt â dioddefwyr cyn i achos fynd i'r llys. Dywedodd fod cais arall wedi'i gyflwyno am gyllid ychwanegol hefyd. 7.3 Nododd DG, ar lefel yr heddlu, fod 'dioddefwyr' yn rhan allweddol o Gynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl a bod y 'Bwrdd Canolbwyntio ar Ddioddefwyr' cysylltiedig yn cyfarfod bob chwarter i wneud gwelliannau. Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio ac ysgogi newid mewn nifer o feysydd yn ymwneud â'r arolygiad PEEL sydd ar ddod. Nodwyd bod cyswllt â dioddefwyr yn faes y mae angen rhoi sylw iddo. 7.4 Trafododd DG sut y byddai'r heddlu yn gwella perfformiad drwy adnodd Gwybodaeth Busnes a ddatblygwyd i weld pa mor aml roedd swyddogion yn cysylltu â dioddefwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a ph'un a oeddent yn defnyddio'r codau dioddefwyr cywir ac yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr ai peidio. Roedd yr adnodd hwn yn galluogi'r tîm i ddeall bylchau a chanfod a oedd swyddogion yn diwallu anghenion dioddefwyr. Roedd DG yn teimlo bod mwy o waith i'w wneud er mwyn cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol a chydymffurfio â'r gofynion. Dywedodd DG fod yr heddlu wedi datblygu pecyn hyfforddiant wedi'i deilwra hefyd, yn unol â'r Coleg Plismona, er mwyn uwchsgilio swyddogion ar y Cod newydd i Ddioddefwyr. Nododd DG y dylai cyfraddau cydymffurfio wella drwy gwblhau'r pecyn hyfforddiant.

		7.5 Rhoddodd DG wybod i'r bwrdd fod yr heddlu wedi llunio Pecyn Gwybodaeth i Ddioddefwyr a oedd yn rhoi adnodd ffisegol i ddioddefwyr, gan esbonio eu hawliau mewn ffordd hygyrch a chlir. Byddai'r pecynnau hefyd yn caniatáu i'r swyddogion sy'n mynychu'r digwyddiadau roi eu manylion cyswllt i'r dioddefwyr mewn modd proffesiynol a'u helpu i ddeall ymrwymiad y sefydliad i wella boddhad dioddefwyr. 7.6 Dywedodd LA wrth y grŵp ei bod yn teimlo y dylai'r swyddogion fod yn ymwybodol mai nid ymarfer ticio blwch neu gymhelliant i gydymffurfio yn unig oedd hyn ac y dylai dioddefwyr fod wrth wraidd yr hyn y maent yn ei wneud. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn helpu gwasanaethau rheng flaen i gysylltu â dioddefwyr a'u cefnogi. 7.7 Dywedodd HJJ fod yr adborth a rannodd Ffocws Dioddefwyr â thîm y Comisiynydd bron bob amser yn ymwneud â diffyg cyswllt dilynol â dioddefwyr gan swyddogion. Yr adborth a gafwyd gan ddioddefwyr oedd y byddent yn fodlon pe bai swyddogion yn cysylltu â nhw hyd yn oed os nad oedd ganddynt wybodaeth newydd i'w rhannu. Yna cyfeiriodd HJJ at ystadegau yn yr adroddiad a ddarparwyd, lle roedd cyfraddau boddhad dioddefwyr yn arbennig o isel, a chanran y diweddariadau a roddwyd gan swyddogion i ddioddefwyr yn isel iawn. Gofynnodd sut roedd yr heddlu yn mynd i'r afael â'r cyfraddau hyn. Yn ogystal, cyfeiriodd HJJ at y targedau hyfforddiant yn yr adroddiad a gofynnodd a fyddai targedau yn cael eu hystyried ar gyfer gwella perfformiad o ran cyswllt dilynol â dioddefwyr hefyd, yn hytrach na gosod targedau ar gyfer cydymffurfio â gofynion hyfforddiant yn unig. Roedd yn bwysig ystyried sut i fesur effaith hyfforddiant yn hytrach na phresenoldeb yn yr hyfforddiant yn unig. Roedd JG yn teimlo y byddai perfformiad yn gwella dros y misoedd nesaf oherwydd lefel y mewnbwn a'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. 7.9 Dywedodd JW fod ei thîm yn cael llawer o gwynion ynghylch diffyg diweddariadau neu ddatblygiadau i ddioddefwyr. Roedd JW yn teimlo y dylid atgoffa swyddogion o bwysigrwydd rheoli disgwyliadau dioddefwyr a holodd a oedd canlyniadau i swyddogion a oedd yn methu cyflawni yn y maes hwn. Nododd JG y caiff arfer myfyriol ei ddefnyddio ac awgrymodd y gellid defnyddio astudiaethau achos yn ystod sioeau teithiol yr Uned Reoli Sylfaenol sydd ar ddod ar draws yr heddlu.
8.	Ymateb yr heddlu i argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar Adroddiad ar Anghymesuredd, Chwefror 2021	8.1 Gofynnwyd i'r heddlu gyflwyno ei ymateb i'r argymhellion yn adroddiad diweddar yr Arolygiaeth ynghylch anghymesuredd, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Roedd yn bwysig deall sut y byddent yn cael eu blaenoriaethu yn Ne Cymru, yn enwedig o ystyried yr holl waith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd newydd. Cyfeiriodd MS at ostyngiad diweddar mewn cyfraddau anghymesuredd o gymharu â 2020. Amlygodd ffigurau allweddol gan gynnwys y ffaith bod cyfraddau anghymesuredd stopio a chwilio ar gyfer dynion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Ne Cymru wedi gostwng o 2.3 yn 2020 i 1.8 yn 2021. Nododd fod yr heddlu wedi bod yn ystyried agweddau ac ymddygiad swyddogion fel rhan o'r gwaith parhaus i fynd i'r afael ag anghymesuredd. Gofynnodd HJJ am i'r cyfraddau anghymesuredd diweddaraf gael eu rhannu â thîm y Comisiynydd. 8.2 Nododd HJJ fod tîm y Comisiynydd wedi gwneud llawer o'r un argymhellion ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi i'r heddlu y llynedd yn ystod yr ymchwil at wraidd y mater mewn perthynas ag anghymesuredd. Nododd HJJ un argymhelliad yn benodol, sef y rhyngweithiad rhwng swyddogion a'r cyhoedd yn ystod achos o stopio a chwilio. Dywedodd, er bod swyddogion yn aml yn

		cydymffurfio â'r broses, roedd sawl achlysur pan nad oedd y rhyngweithiad yn gyfeillgar a gellid ystyried bod gan y swyddog agwedd ddigywilydd. Gofynnodd HJJ beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn, er mwyn gwella rhyngweithio â'r cyhoedd. Dywedodd MS fod yr heddlu wedi sefydlu hyfforddiant penodol i fynd i'r afael â hyn ac i geisio gwella agweddau swyddogion drwy adolygu darnau o fideo o gamerâu a wisgir ar y corff mewn achosion o stopio a chwilio a cheisio codi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion. 8.3 Cyfeiriodd HJJ at bwynt arall yn adroddiad yr Arolygiaeth a oedd yn nodi'r ffordd roedd heddluoedd yn defnyddio gweithgarwch rhagweithiol ynghylch llinellau cyffuriau fel rheswm dros rywfaint o anghymesuredd, ond nododd yr Arolygiaeth na allai'r heddluoedd ddangos tystiolaeth ddigonol i gadarnhau'r tybiaethau hynny mewn gwirionedd. Gofynnodd HJJ a oedd yr heddlu yn gwneud unrhyw waith yn hyn o beth a gofynnodd a ystyriwyd bod llinellau cyffuriau yn rheswm dros anghymesuredd yn Ne Cymru a/neu a wnaed gwaith i ddangos bod hyn yn ffaith yn hytrach na thybiaeth. Dywedodd MS fod gofyn i rai timau, megis tîm Ymgyrch Sceptre, dargedu meysydd penodol. CAM GWEITHREDU: MS i rannu'r data diweddaraf ar anghymesuredd achosion o stopio a chwilio â thîm y Comisiynydd.
9.	Blaenraglen Graffu 2021-22	9.1 Rhannodd LJ y flaenraglen graffu arfaethedig ar gyfer 2021-22 â'r bwrdd, gan gynnwys themâu pob ymchwiliad at wraidd y mater ar gyfer y flwyddyn. Roedd y Bwrdd yn eu cefnogi ac felly byddent yn cael eu cyflwyno gerbron Bwrdd Strategol y Comisiynydd er mwyn eu cymeradwyo.
10.	Casgliadau ac Eitemau i'w Huwchgyfeirio	10.1 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol. 10.2 Cadarnhaodd LJ eto y byddai'r materion a drafodwyd ynghylch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu huwchgyfeirio i Fwrdd Strategol y Comisiynydd. Byddai'r rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn yn cael ei chyflwyno gerbron y Bwrdd Strategol er mwyn ei chymeradwyo'n derfynol hefyd.
11.	Unrhyw Fater Arall	11.1 Dim.

Tabl Camau Gweithredu

Rhif	Camau gweithredu	Cyfrifoldeb
1	Rhannu adborth gan Barnardo's â'r heddlu (CW).	Hannah Jenkins-Jones
2	Yr Heddlu i ganfod pryd y gwnaed y penderfyniad i gyfeirio pob ymgais i gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu drwy 101 a chanfod a ellid sefydlu dulliau cysylltu amgen neu roi cyhoeddusrwydd iddynt.	Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon
3	LJ i uwchgyfeirio'r materion a drafodwyd ynghylch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i Fwrdd Strategol y Comisiynydd.	Lee Jones
4	MS i rannu data ar anghymesuredd â thîm y Comisiynydd (cyfeiriodd MS at ostyngiad diweddar mewn cyfraddau anghymesuredd o gymharu â 2020. Amlygodd ffigurau allweddol gan gynnwys y ffaith bod cyfraddau anghymesuredd stopio a chwilio ar gyfer dynion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Ne Cymru wedi gostwng o 2.3 yn 2020 i 1.8 yn 2021).	Yr Uwch-arolygydd Martyn Stone